OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 1288 (Cy. 297) (C. 120)

# DŴR, CYMRU A LLOEGR

## Gorchymyn Deddf Dŵr 2014 (Cychwyn Rhif 10) 2017

*Gwnaed - - - - 14 Rhagfyr 2017*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 94(3) o Ddeddf Dŵr 2014(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Dŵr 2014 (Cychwyn Rhif 10) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Dŵr 2014.

### Darpariaethau Deddf 2014 sy'n dod i rym ar y diwrnod drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2014 i rym i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym ar y diwrnod drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn—

(a) adran 17 (rheolau ynghylch taliadau ar gyfer cysylltiadau etc); a

(b) adran 38 (canllawiau sy'n ymwneud â rheolau ynghylch taliadau).

### Darpariaethau Deddf 2014 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2019

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2014 i rym ar 1 Ebrill 2019—

(a) adran 8 (swmpgyflenwi dŵr gan ymgymerwyr dŵr) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(b) adran 9 (prif gysylltiadau â systemau carthffosiaeth);

(c) adran 10 (cytundebau gan ymgymerwyr dŵr i fabwysiadu seilwaith) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym; a

(d) adran 11 (cytundebau gan ymgymerwyr carthffosiaeth i fabwysiadu seilwaith) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

(**1**) 2014 p. 21. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol o dan adran 94(3) o Ddeddf 2014 at y dibenion hyn yn rhinwedd y tabl ym mharagraff 1 o Atodlen 12 i Ddeddf 2014.

*Hannah Blythyn*
Gweinidog yr Amgylchedd, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

14 Rhagfyr 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gwneir y Gorchymyn Cychwyn hwn gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Dŵr 2014 ("Deddf 2014").

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym adrannau 17 a 38 o Ddeddf 2014 at yr holl ddibenion sy'n weddill ar y diwrnod drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn. Mae adran 17 yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ("Deddf 1991") drwy ganiatáu i reolau gael eu dyroddi ynghylch taliadau y caniateir eu codi gan ymgymerwyr dŵr ac ymgymerwyr carthffosiaeth am gysylltiadau i brif bibellau dŵr, carthffosydd cyhoeddus a rhywfaint o seilwaith cysylltiedig, ac am eu darparu. Mae adran 38 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi a diwygio canllawiau mewn perthynas â'r rheolau ynghylch codi taliadau a ddyroddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr ("Ofwat").

Mae erthygl 3 yn dwyn i rym ar 1 Ebrill 2019 adrannau 8 i 11 o Ddeddf 2014. Mae'r darpariaethau hyn yn diwygio Deddf 1991 ac yn darparu pwerau newydd i Ofwat ddyroddi rheolau codi taliadau mewn cysylltiad â chynlluniau taliadau ymgymerwyr, taliadau cysylltu, a thaliadau am swmp gyflenwadau dŵr (a chysylltiadau ar gyfer carthffosiaeth) rhwng ymgymerwyr.

Mae adran 8 o Ddeddf 2014 yn rhoi adrannau 40 i 40J newydd yn lle adrannau 40 a 40A o Ddeddf 1991 i reoleiddio cytundebau swmp gyflenwadau dŵr rhwng ymgymerwr dŵr ac ymgymerwr dŵr arall, neu berson sydd wedi gwneud cais i ddod yn ymgymerwr.

Mae adran 9 o Ddeddf 2014 yn rhoi adrannau 110A i 110J newydd yn lle'r adran 110A bresennol o Ddeddf 1991 i reoleiddio cytundebau prif gysylltiadau rhwng ymgymerwr carthffosiaeth ac ymgymerwr carthffosiaeth arall, neu berson sydd wedi gwneud cais i ddod yn ymgymerwr.

Mae adran 10 o Ddeddf 2014 yn diwygio adran 51A o Ddeddf 1991 ac yn rhoi adrannau 51B i 51CG newydd yn lle adrannau 51B a 51C o'r Ddeddf honno i reoleiddio cytundebau rhwng ymgymerwr dŵr ac unrhyw berson sy'n ceisio darparu prif bibellau dŵr neu bibellau cyflenwi i'w mabwysiadu yn y pen draw gan yr ymgymerwr dŵr.

Mae adran 11 o Ddeddf 2014 yn diwygio adran 104 o Ddeddf 1991 ac yn mewnosod adrannau 105ZA i 105ZI newydd yn y Ddeddf honno i reoleiddio trefniadau rhwng ymgymerwr carthffosiaeth ac unrhyw berson sy'n ceisio darparu carthffosydd, draeniau neu weithfeydd gwaredu carthffosiaeth i'w mabwysiadu yn y pen draw gan yr ymgymerwr carthffosiaeth.

Mae adrannau 8 i 11 hefyd yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar gynnwys y rheolau codi taliadau newydd a gyflwynir gan yr adrannau hynny. Mae'r pŵer i ddyroddi canllawiau o dan y darpariaethau a fewnosodir gan adrannau 8 a 9 yn arferadwy ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chytundebau penodol.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2014 wedi eu dwyn i rym, neu byddant wedi eu dwyn i rym, drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 1 (yn rhannol) | 1 Medi 2015 | 2015/773 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 1 (yn rhannol) | 1 Medi 2015 | 2015/1469 |
| Adran 1 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2016 | 2015/1938 |
| Adran 1 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |
| Adran 1 (yn rhannol) | 1 Medi 2016 | 2016/465 |
| Adran 1 (yn rhannol) | 1 Tachwedd 2016 | 2016/1007 |
| Adran 1 (yn rhannol) | 30 Mawrth 2017 | 2017/462 |
| Adran 1 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2017 | 2017/462 |
| Adran 2 | 1 Ebrill 2017 | 2017/462 |
| Adran 4 (yn rhannol) | 1 Medi 2015 | 2015/773 |
| Adran 4 (yn rhannol) | 1 Medi 2015 | 2015/1469 |
| Adran 4 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2016 | 2015/1938 |
| Adran 4 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |
| Adran 4 (yn rhannol) | 1 Medi 2016 | 2016/465 |
| Adran 4 (yn rhannol) | 30 Mawrth 2017 | 2017/462 |
| Adran 4 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2017 | 2017/462 |
| Adran 6 (yn rhannol) | 18 Rhagfyr 2015 | 2015/1938 |
| Adran 6 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |
| Adran 7 (yn rhannol) | 20 Tachwedd 2015 | 2015/360(O.S.A.) |
| Adran 7 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | 1 Ebrill 2016 | 2016/48 (O.S.A.) |
| Adran 8 (yn rhannol) | 6 Ebrill 2015 | 2015/773 |
| Adran 8 (yn rhannol, ar gyfer achosion pan yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod priodol) | 1 Tachwedd 2016 | 2016/1007 |
| Adran 9 (yn rhannol, ar gyfer achosion pan yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod priodol) | 1 Tachwedd 2016 | 2016/1007 |
| Adran 10 (yn rhannol) | 18 Rhagfyr 2015 | 2015/1938 |
| Adran 10 (yn rhannol, mewn perthynas ag ymgymerwyr yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | 1 Ebrill 2017 | 2017/462 |
| Adran 10 (at yr holl ddibenion sy'n weddill mewn perthynas | 1 Hydref 2017 | 2017/462 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| ag ymgymerwyr yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | | |
| Adran 11 (yn rhannol) | 18 Rhagfyr 2015 | 2015/1938 |
| Adran 11 (yn rhannol, mewn perthynas ag ymgymerwyr yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | 1 Ebrill 2017 | 2017/462 |
| Adran 11 (at yr holl ddibenion sy'n weddill mewn perthynas ag ymgymerwyr yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | 1 Hydref 2017 | 2017/462 |
| Adran 14 (yn rhannol) | 6 Ebrill 2015 | 2015/773 |
| Adran 14 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | 18 Rhagfyr 2015 | 2015/1938 |
| Adran 16 (yn rhannol) | 15 Gorffennaf 2015 | 2015/1469 |
| Adran 16 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | 1 Tachwedd 2015 | 2015/1469 |
| Adran 17 (yn rhannol) | 6 Ebrill 2015 | 2015/773 |
| Adran 17 (yn rhannol) | 15 Gorffennaf 2015 | 2015/1469 |
| Adran 17 (at yr holl ddibenion sy'n weddill mewn perthynas ag ymgymerwyr yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |
| Adran 18 (mewn perthynas ag ymgymerwyr yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | 1 Ebrill 2018 | 2017/462 |
| Adran 19 (mewn perthynas ag ymgymerwyr yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | 1 Ebrill 2018 | 2017/462 |
| Adran 20 (mewn perthynas ag ymgymerwyr yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | 1 Ebrill 2018 | 2017/462 |
| Adran 22 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | 18 Rhagfyr 2015 | 2015/1938 |
| Adran 23 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2015 | 2014/3320 |
| Adran 23 (yn rhannol mewn perthynas ag ymgymerwyr yng Nghymru yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | 6 Ebrill 2015 | 2015/773 |
| Adran 23 (at yr holl ddibenion sy'n weddill mewn perthynas | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| ag ymgymerwyr yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | | |
| Adran 24 | 6 Ebrill 2015 | 2015/773 |
| Adran 25 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |
| Adran 29 (yn rhannol ar gyfer achosion pan yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod priodol) | 1 Ionawr 2015 | 2014/3320 |
| Adran 29 (yn rhannol) | 15 Gorffennaf 2015 | 2015/1469 |
| Adran 29 (at yr holl ddibenion sy'n weddill ar gyfer achosion pan yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod priodol) | 1 Tachwedd 2016 | 2016/1007 |
| Adran 30 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2015 | 2014/3320 |
| Adran 30 (yn rhannol) | 15 Gorffennaf 2015 | 2015/1469 |
| Adran 30 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | 1 Tachwedd 2016 | 2016/1007 |
| Adran 31 | 1 Ebrill 2017 | 2017/462 |
| Adran 32 (yn rhannol) | 6 Mawrth 2017 | 2017/58 |
| Adran 32 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | 1 Ebrill 2017 | 2017/462 |
| Adran 34 (yn rhannol) | 1 Medi 2016 | 2016/465 |
| Adran 37 | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |
| Adran 38 (yn rhannol mewn perthynas ag ymgymerwyr yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | 1 Ionawr 2015 | 2014/3320 |
| Adran 38 (yn rhannol mewn perthynas ag ymgymerwyr yng Nghymru yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | 6 Ebrill 2015 | 2015/773 |
| Adran 38 (at yr holl ddibenion sy'n weddill mewn perthynas ag ymgymerwyr yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |
| Adran 40 (yn rhannol) | 14 Gorffennaf 2014 | 2014/1823 |
| Adran 40 (yn rhannol) | 1 Tachwedd 2016 | 2016/1007 |
| Adran 41 (mewn perthynas ag ymgymerwyr yng Nghymru yn gyfan gwbl neu'n bennaf) | 1 Tachwedd 2015 | 2015/1786 (Cy. 249) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 42 i 47 | 6 Ebrill 2015 | 2015/773 |
| Adran 49 | 6 Ebrill 2015 | 2015/773 |
| Adrannau 51 a 52 | 6 Ebrill 2015 | 2015/773 |
| Adran 53 (yn rhannol) | 6 Ebrill 2015 | 2015/773 |
| Adran 55 | 1 Ionawr 2015 | 2014/3320 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2015 | 2014/3320 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 15 Gorffennaf 2015 | 2015/1469 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 1 Medi 2015 | 2015/1469 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 1 Tachwedd 2015 | 2015/1469 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 18 Rhagfyr 2015 | 2015/1938 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2016 | 2015/1938 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 1 Medi 2016 | 2016/465 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 1 Tachwedd 2016 | 2016/1007 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 6 Mawrth 2017 | 2017/58 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2017 | 2017/462 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 1 Hydref 2017 | 2017/462 |
| Adran 56 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2018 | 2017/462 |
| Adran 59 | 1 Hydref 2014 | 2014/1823 |
| Adrannau 64 i 68 | 1 Ionawr 2015 | 2014/3320 |
| Adran 69 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | 1 Ionawr 2015 | 2014/3320 |
| Adran 82 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2015 | 2014/3320 |
| Adrannau 83 a 84 | 1 Ionawr 2015 | 2014/3320 |
| Atodlen 1 | 1 Ionawr 2016 | 2015/1938 |
| Atodlen 2 (yn rhannol) | 1 Medi 2015 | 2015/773 |
| Atodlen 2 (yn rhannol) | 1 Medi 2015 | 2015/1469 |
| Atodlen 2 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |
| Atodlen 2 (yn rhannol) | 30 Mawrth 2017 | 2017/462 |
| Atodlen 2 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2017 | 2017/462 |
| Atodlen 3 | 1 Ionawr 2016 | 2015/1938 |
| Atodlen 4 (yn rhannol) | 1 Medi 2015 | 2015/773 |
| Atodlen 4 (yn rhannol) | 1 Medi 2015 | 2015/1469 |
| Atodlen 4 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Atodlen 4 (yn rhannol) | 1 Medi 2016 | 2016/465 |
| Atodlen 4 (yn rhannol) | 30 Mawrth 2017 | 2017/462 |
| Atodlen 4 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2017 | 2017/462 |
| Atodlen 6 | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2015 | 2014/3320 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 15 Gorffennaf 2015 | 2015/1469 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 1 Medi 2015 | 2015/1469 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 1 Tachwedd 2015 | 2015/1469 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 18 Rhagfyr 2015 | 2015/1938 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2016 | 2015/1938 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2016 | 2016/465 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 1 Medi 2016 | 2016/465 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 1 Tachwedd 2016 | 2016/1007 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 6 Mawrth 2017 | 2017/58 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2017 | 2017/462 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 1 Hydref 2017 | 2017/462 |
| Atodlen 7 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2018 | 2017/462 |
| Atodlen 9 | 14 Gorffennaf 2014 | 2014/1823 |